# Agenda – Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Chwefror 2017

Amser: 10.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Clerk: Kathryn Hughes**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

kathryn.hughes@cynulliad.cymru


## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Wedi derbyn ymddiheuriadau oddi wrth Suzy Davies. Roedd Andy Munro yn bresennol fel rhan o'i Adolygiad Sicrhau Ansawdd Allanol o ran Archwilio Mewnol, ac roedd Clive Fitzgerald o TIAA yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad archwilio ar seiber-ddiogelwch.

1.2 Datganodd Eric Gregory ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Raglen Cofrestru Etholiadol Modern Swyddfa'r Cabinet a'i fod yn gynrychiolydd busnes ar gyfer yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

1.3 Er nad oedd yn achos o wrthdaro o reidrwydd, roedd Hugh Widdis am gofnodi'r ffaith iddo gael ei gyflogi gan CGU oddeutu 1998-2000. Unwyd CGU â Norwich Union yn ddiweddarach a sefydlwyd Aviva maes o law.

1.4 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau eraill.

## 2 Cofnodion a materion yn codi

*ACARAC (01-17) Papur 1 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2016*

*ACARAC (01-17) Papur 2 – Crynodeb o’r camau i’w cymryd*

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd a nodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau a nodwyd ym mhapur 2.

2.2 Rhoddodd Gareth y wybodaeth ddiweddaraf am un o’r camau i’r cymryd (paragraff 2.3) *rhoi adborth i'r Pwyllgor am ganlyniad diwrnod cwrdd i ffwrdd y tîm Llywodraethu ac Archwilio.* Cynhaliwyd sesiwn brynhawn yn ddiweddar i adolygu'r camau a nodwyd yn sesiwn mis Mai 2016. Daeth nifer o themâu cadarnhaol i'r amlwg o'r sesiynau hyn o ran gweithio’n rhagweithiol ar draws timau ac ar draws y Comisiwn. Hefyd, roedd modiwl dysgu Llywodraethu yn cael ei ddatblygu at ddibenion hyfforddiant fel rhan o Raglen Rheolwyr y Comisiwn. Cytunodd Gareth i roi’r manylion diweddaraf i’r Pwyllgor.

2.3 Cadarnhaodd Eric fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dosbarthu gwybodaeth yn ddiweddar yn ymwneud ag un o’r camau i’w cymryd (paragraff 6.4) *cylchredeg manylion arolygon effeithiolrwydd gan Fforwm Cadeiryddion Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.* Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu ym mis Hydref, ar yr amod bod pwyllgorau eraill yn ei rhannu â Swyddfa Archwilio Cymru, fel y gwnaethom eisoes.

2.4 Cyflwynodd Claire Clancy wybodaeth i'r Pwyllgor am yr *ymgynghoriad ar newid enw* (pwynt gweithredu 10.4). Byddai'r ymgynghoriad ar agor tan ddechrau mis Mawrth ac, o'r 1,721 o ymatebion a gafwyd hyd yma, mae 65-70% ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw.

2.5 Hefyd, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Claire am Banel Arbenigol y Cynulliad ar Ddiwygio Etholiadol, a lansiwyd ar 1 Chwefror ac a oedd i gwrdd am y tro cyntaf ar 14 Chwefror.

2.6 Croesawodd y Cadeirydd y ffaith i'r adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol gael ei gylchredeg yn ddiweddar. Cytunodd y swyddogion i adolygu'r defnydd o fesurau targedau 100% a’r penderfyniad i hepgor unrhyw gyfeiriad at brosiectau a rhaglenni allweddol.

2.7 Dywedodd Claire fod y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB) yn cael gwybodaeth yn rheolaidd gan y Cyfarwyddwyr am hynt prosiectau a rhaglenni. Rhoddir gwybodaeth am brosiectau mawr yn rheolaidd i Gomisiwn y Cynulliad.

**Cam i'w gymryd**

- *Gareth i gylchredeg y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau cadarnhaol i'r tîm.*

## 3 Adroddiad ar Waith Archwilio Mewnol

*ACARAC (01-17) Papur 3 – Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol*
*ACARAC (01-17) Papur 4 – Argymhellion Monitro Archwilio Mewnol*

3.1 Croesawodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd a dogfennau monitro Gareth. Roedd archwiliad o'r Gyflogres wedi dechrau a byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei ddosbarthu y tu allan i'r pwyllgor, ynghyd â'r adolygiad yr IRB.

3.2 Byddai Gareth yn archwilio'r taliadau a wnaed i Aelodau'r Cynulliad o ran grantiau adsefydlu, taliadau diswyddo i staff cymorth, a'r gwaith o sefydlu swyddfeydd rhanbarth ac etholaeth Aelodau newydd ar ôl etholiad y Pumed Cynulliad.

3.3 Dywedodd Gareth y byddai'r contract ar gyfer trefniadau Archwilio Mewnol ar y cyd yn cael ei ddyfarnu ym mis Mehefin 2017.

3.4 Ar ôl trafod yr archwiliadau penodol yr oedd Gareth ar fin eu cynnal, o ran eu cwmpas a maint eu samplau, awgrymodd y Pwyllgor y dylai Gareth ystyried y ffordd orau o roi gwybod i'r Comisiwn am ganlyniadau a buddion ei adroddiadau archwilio, yn ogystal ag argymhellion a oedd wedi eu gwrthod gan y Rheolwyr.

**Camau i'w cymryd**:

- *Roedd Gareth i gylchredeg yr argymhellion a'r camau i'w cymryd yn dilyn adolygiad yr IRB , wedi i'r IRB eu hystyried.*

- *Bydd Gareth yn cynnwys canlyniadau argymhellion adolygiadau archwilio mewn adroddiadau yn y dyfodol.*
- *Bydd Gareth yn cynnwys yr argymhellion hynny yn adroddiadau Archwiliadau Mewnol nas derbynnir gan y tîm Rheoli, a'r rhesymau dros hynny.*

## 4 Yr adroddiad archwilio mewnol diweddaraf

*ACARAC (01-17) Papur 5 - Seiber-ddiogelwch*

4.1 Canlyniad yr archwiliad o Seiber-ddiogelwch oedd bod 'angen ei wella'. Roedd hyn oherwydd maint y gwaith a oedd yn dal ar y gweill i wella trefniadau Comisiwn y Cynulliad o ran seiber-ddiogelwch. Cafodd 12 argymhelliad eu gwneud i i wella'r trefniadau presennol ond nid oedd gan yr un o'r rhain flaenoriaeth Uchel/Critigol.

4.2 Teimlai'r Cadeirydd fod yr adroddiad yn un trylwyr a bod y Comisiwn yn awyddus i roi'r argymhellion ar waith yn fuan. Cytunodd â phenderfyniad y Comisiwn i wrthod un o'r argymhellion.

4.3 Disgrifiodd Dave y gwaith a oedd yn digwydd ar lefel y DU a chadarnhaodd y byddai pob un o'r 12 o argymhellion wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2016-17. Byddai penodi arbenigwr rhwydweithiau diogelwch seiber i dîm TGCh yn cryfhau'r maes hwn ymhellach, ond roedd yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sefydliad a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ymysg staff y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff cymorth. Byddai Gareth yn ymgymryd â gwaith dilynol ynghylch adolygiad ISO27001:2013 ac yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â Phennaeth TGCh cyn cynnal archwiliad dilynol a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor pan fo hynny'n briodol.

4.4 Cadarnhaodd Dave fod seiber-ddiogelwch ar fin cael ei ychwanegu at Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Comisiwn a gofynnodd y Pwyllgor a oedd gwneud TGCh yn swyddogaeth fewnol wedi amlygu methiannau hanesyddol o ran diogelwch y rhwydwaith. Cadarnhaodd Dave fod y

penderfyniad i ddarparu gwasanaethau TGCh yn fewnol wedi amlygu rhai gwendidau yn y contract allanol, ond mae'r sefyllfa wedi gwella ar ôl ennill rheolaeth dros y gwasanaethau yn dilyn y penderfyniad hwnnw.

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru

*ACARAC (01-17) Papur 6 - papur diweddaru*

5.1 Cadarnhaodd Ann-Marie Harkin a Matthew Coe fod yr argymhelliad a nodwyd yn Llythyr Rheoli 2015-16 wedi'i roi ar waith erbyn hyn. Nid yw'r archwiliad interim wedi nodi unrhyw broblemau hyd yn hyn.

5.2 Trafodwyd ffioedd archwilio 2016-17 a chytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i roi gwybod i'r Pwyllgor ar ôl eu proses safoni mewnol. Mae'r tîm archwilio wedi argymell gostyngiad yn y ffi oherwydd ansawdd y cyfrifon a'r cymorth a ddarperir gan y Comisiwn.

5.3 Holodd y Cadeirydd am y sgôr a roddodd Swyddfa Archwilio Cymru i'r adroddiad blynyddol yn y broses gymharu adroddiadau a gynhaliwyd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Yn ei farn ef, roedd sawl un o'r meini prawf yn amherthnasol a dylai fod sgôr cyffredinol y Comisiwn yn uwch.

5.4 Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru y dylai fod wedi archwilio'r matrics sgorio'n drylwyr i sicrhau cywirdeb cyn cael ei anfon at Nia ac y gellid gwella'r wybodaeth a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru am ddiben a methodoleg y broses. Bydd Nia a Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod y system sgorio ac yn rhannu arfer da y tu allan i'r cyfarfod.

5.5 Croesawodd y Pwyllgor yr egwyddorion a oedd wrth wraidd y broses gymharu, ond anogodd Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau bod prosesau o'r fath yn cael eu datblygu a'u hesbonio'n ofalus.

**Camau i'w cymryd**:

- *Swyddfa Archwilio Cymru i hysbysu ACARAC o'r ffi flynyddol a gymeradwyir.*

- *Nia Morgan ac Ann-Marie Harkin i ailasesu system sgorio'r Adroddiad Blynyddol a thynnu sylw at feysydd i'w gwella ac arfer gorau.*

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb

<u>Llywodraethu'r Comisiwn</u>

*ACARAC (01-17) Papur 7 - Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid a'r gyllideb*

*ACARAC (01-17) Papur 8 - Polisïau cyfrifyddu - adolygiad blynyddol*

6.1 Cyflwynodd Nia Morgan y ddwy eitem hyn. Cafodd y targedau ariannol corfforaethol ar gyfer 2016-17 eu hadolygu a'u diweddaru mewn cyfarfod o'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a gynhaliwyd yn ddiweddar. Diwygiwyd y targed tanwario diwedd blwyddyn o 1.0% i 0.5%, a phennwyd targedau llymach ar gyfer targedau talu'n brydlon. Hefyd, soniodd Nia am y newidiadau yn staff y tîm Cyllid.

6.2 Byddai'r targed tanwario diwygiedig o lai na 0.5% yn her, ond mewn cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli a gynhaliwyd yn ddiweddar roedd Nia wedi dweud wrth Benaethiaid y Gwasanaethau fod yr wythnosau sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol gyfredol yn gyfnod hollbwysig o ran rheoli cyllidebau eu gwasanaethau. Tynnodd y Pwyllgor sylw at y posibilrwydd y gallai targed o'r fath yn cynyddu'r risg o orwario.

6.3 Croesawodd y Pwyllgor yr adolygiad blynyddol o bolisïau cyfrifyddu gan ddiolch i Nia am y papur cynhwysfawr.

## 7 Adolygiad o bolisïau cyfrifyddu

## 8 Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect system cyllid newydd

*ACARAC (01-17) Papur 9 - Y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Cyllid*

7.1 Diolchodd y Cadeirydd i Keith Baldwin am ei rôl fel 'cyfaill beirniadol' ym mhrosiect y system cyllid newydd ac anogodd swyddogion i ddefnyddio arbenigedd aelodau'r pwyllgor wrth ymgymryd â phrosiectau a thasgau eraill yn y dyfodol.  Hefyd, anogodd dîm y prosiect i sicrhau bod y system yn cael ei hymgorffori'n llawn yn y sefydliad cyn cynnal adolygiad ar ôl gweithredu.

7.2 Ym mhapur Keith, disgrifiwyd cyfarfodydd calonogol a chadarnhaol â thîm y prosiect a bwrdd y prosiect.  Roedd pawb a oedd ynghlwm wrtho yn frwdfrydig ynglŷn â'r system, a byddai Keith yn anfon sylwadau at dîm y prosiect am y meini prawf ar gyfer 'mynd yn fyw'.

7.3 Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod pob un o argymhellion Keith yn adlewyrchu arfer da a nodwyd y dylai tîm y prosiect eu derbyn.

7.4 Holodd y Pwyllgor am y penderfyniad i newid y drefn o gyflwyno'r prosiect a newid yr amserlen.  Croesawodd Eve Jennings yr argymhellion yn y papur a dywedodd mai'r cyflenwr oedd yn gyfrifol am y penderfyniad. Roedd y broses o drosglwyddo data wedi mynd rhagddo'n rhwydd iawn ac roedd tîm y prosiect yn hyderus bod modd rhoi'r system ar waith erbyn y dyddiad a bennwyd, sef 3 Ebrill.

**Camau i'w cymryd**

- *Nia i roi gwybodaeth ar lafar am hynt y prosiect yn y cyfarfod ym mis Mawrth.*
- *Keith i anfon ei sylwadau at dîm y prosiect am y meini prawf ar gyfer 'mynd yn fyw'.*

## 9 Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol

*ACARAC (01-17) Papur 10 - Risgiau Corfforaethol*

*ACARAC (01-17) Papur 10 - Atodiad A - Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol*

*ACARAC (01-17) Papur 10 - Atodiad B - Risgiau Corfforaethol a nodwyd*

8.1 Nododd y Pwyllgor y newidiadau a oedd i'w gwneud i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn sgil adolygiad llawn diweddaraf y Bwrdd Rheoli ar 2 Chwefror.  Byddai cofrestr ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Rheoli yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2, a byddai newidiadau eraill yn cael eu hystyried hefyd.

## 10 Archwiliad beirniadol o un risg a nodwyd – Cynigion i ymchwilio i adeilad ychwanegol

*ACARAC (01-17) Papur 11 – Adeilad Ychwanegol*

8.1 Nododd y Pwyllgor y newidiadau a oedd i'w gwneud i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn sgil adolygiad llawn diweddaraf y Bwrdd Rheoli ar 2 Chwefror.  Byddai cofrestr ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Rheoli yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2, a byddai newidiadau eraill yn cael eu hystyried hefyd.

8.2 Arweiniodd Dave drafodaeth ar y gwaith sy’n mynd rhagddo i asesu a oedd angen rhagor o le ar y Cynulliad yn awr ac yn y dyfodol, gan ystyried yr amserlenni, a'r ymgynghorwyr arbenigol sydd wedi bod yn ymwneud â'r gwahanol opsiynau sy'n cael eu trafod.

8.3 Anogodd y Pwyllgor y swyddogion i gofnodi’r camau a gymerwyd i benderfynu ar y lle ychwanegol roedd ei angen, gan gynnwys tystiolaeth berthnasol, a’r opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol, er mwyn tawelu ofnau rhanddeiliaid.

## 11 Y dirwedd gyfansoddiadol – Canolfan Llywodraethiant Cymru

*Cyflwyniad*

9.1 Croesawodd y Pwyllgor yr Athro Roger Scully o Ganolfan Llywodraethiant Cymru i draddodi ei gyflwyniad, sef *Y dirwedd gyfansoddiadol*.

Cymhwysedd cyfreithiol yn y dyfodol, capasiti'r Cynulliad a Brexit oedd prif themâu ei gyflwyniad.

9.2 Diolchodd y Pwyllgor i Roger Scully am roi o'i amser ac am egluro'r pynciau cymhleth hyn a'u cyd-ddibyniaeth.

## 12 Trafod materion wrth baratoi ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu

*ACARAC (01-17) Papur 12 - Adroddiad Blynyddol 2015-16*

10.1 Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i ystyried y meysydd yr hoffent i adroddiad blynyddol y Pwyllgor roi sylw iddynt. Byddai'r tîm clercio yn gweithio gydag ef i drafod gwahanol opsiynau ar gyfer cyflwyno.

10.2 Byddai'r tîm clercio yn gwneud y newidiadau a awgrymwyd i'r Cylch Gorchwyl.

**Camau i'w cymryd**

- *Aelodau'r Pwyllgor i roi syniadau i'r tîm clercio am feysydd i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol ACARAC ar gyfer 2016-17 a sut y gallai diwyg y ddogfen fod yn fwy atyniadol yn gyffredinol.*
- *Y tîm clercio i ychwanegu Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth i'r Cylch Gorchwyl o dan ofynion gwybodaeth.*

## 13 Adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor

*ACARAC (01-17) Papur 13 - Cylch Gorchwyl*

11.1 Byddai'r tîm clercio yn gwneud y newidiadau a awgrymwyd i'r Cylch Gorchwyl.

**Cam i'w gymryd**

- *Y tîm clercio i ychwanegu Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth i'r Cylch Gorchwyl o dan ofynion gwybodaeth.*

## 14 Crynodeb o'r ymadawiadau

*ACARAC (01-17) Papur 14 - Crynodeb o'r ymadawiadau*

12.1 Nododd y Pwyllgor dau o ymadael â'r gweithdrefnau caffael arferol.

## 15 Blaenraglen Waith

13.1 Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor anfon sylwadau ar y flaenraglen waith at y tîm clercio. Byddai'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu diweddaru ar ôl i'r aelodau gadarnhau eu bod ar gael.

13.2 Cytunodd y Cadeirydd i rannu sylwadau Rheon Tomas, a oedd wedi bod yn bresennol mewn cyfres o Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg.

**Camau i'w cymryd**

- *Aelodau'r Pwyllgor i roi syniadau i'r tîm clercio am feysydd i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol ACARAC ar gyfer 2016-17 a sut y gallai diwyg y ddogfen fod yn fwy atyniadol yn gyffredinol.*
- *Y tîm clercio i ychwanegu Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth i'r Cylch Gorchwyl o dan ofynion gwybodaeth.*
- *Rhoi sylwadau i'r tîm clercio ar y Flaenraglen Waith a chadarnhau bod aelodau ar gael ar y dyddiadau a nodwyd.*
- *Rhannu sylwadau Rheon Tomas ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*

Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 20 Mawrth 2017.